# Adroddiad Arolygu

**Clwb ar ôl Ysgol Glanrafon**

**Ysgol Glanrafon**
**Lôn Bryn Coch**
**Yr Wyddgrug**
**CH7 1PS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Clwb ar ôl Ysgol Glanrafon

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Person Cofrestredig | Catherine Atkinson Corben |
| Lleoedd cofrestredig | 44 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Mehefin 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gadarnhaol. Mae'r plant yn cydweithio'n briodol ac maent yn ymddiddori yn eu profiadau chwarae a dysgu ac yn ymgysylltu â nhw. Maent yn cael dewis rhesymol o gyfleoedd addas dan do ac yn yr awyr agored ac yn gallu ymlacio a chael cyfnodau tawel hefyd. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain.

Mae'r staff yn datblygu eu dealltwriaeth ac yn gweithio tuag at roi'r rhan fwyaf o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith er mwyn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau. Mae'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant ac yn trefnu profiadau chwarae a dysgu priodol ar eu cyfer.

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn groesawgar. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod teganau, adnoddau a chyfarpar ar gael i'r plant sy'n briodol i'w hoedran. Mae'r ardal awyr agored yn ddiogel ac yn cynnig digon o gyfleoedd er mwyn i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol wrth chwarae yn yr awyr iach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r rhan fwyaf o agweddau ar y gwasanaeth yn addas. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a chyrraedd y safonau.

| Llesiant | Digonol |
|---|---|

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mynegi mwynhad. Maent yn dechrau eu chwarae eu hunain ac yn dilyn eu diddordebau yn briodol.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Er enghraifft, maent yn mwynhau cyflwyno eu hunain a dangos yr hyn y maent yn hoffi chwarae ag ef. Gwnaeth rhai o'r plant fynd ati i gyflwyno adroddiad ysgrifenedig o'r hyn maent yn hoffi ei wneud yn y Clwb. Roedd y plant yn frwdfrydig wrth ddweud eu bod yn mwynhau chwarae gemau bwrdd, gwylio ffilm, chwarae gyda'u ffrindiau iau a chwarae pêl-droed. Roedd y plant yn falch o ddangos yr hetiau papur roeddent wedi'u gwneud a'u haddurno â blodau gwyllt ac yn eu gwisgo.

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn mynd at y staff yn hawdd i ofyn am ragor o fwyd yn ystod amser byrbryd neu pan fyddant am gymryd rhan mewn gweithgaredd gwahanol. Mae'r plant yn mwynhau eistedd gyda'r staff i gael stori wedi'i darllen iddynt ac yn teimlo'n gyfforddus i ofyn ac ateb cwestiynau.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol gyda staff a'u ffrindiau. Maent yn dysgu i gymryd eu tro ac i rannu'n briodol. Er enghraifft, yn ystod amser chwarae yn yr awyr agored, roedd y ffrindiau'n rhannu'r glaswellt, y dail a'r blodau gwyllt a gasglwyd cyn cymryd eu tro i'w gosod mewn powlenni unigol. Roedd y plant yn cydweithredu'n dda fel tîm wrth iddynt gefnogi ei gilydd i gerdded ar hyd y cerrig sarn. Roedd y plant hŷn yn dangos caredigrwydd ac amynedd at eu ffrindiau iau wrth chwarae cardiau a gemau bwrdd.

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig. Maent yn mwynhau datblygu eu dychymyg yn y gornel gartref. Er enghraifft, trefnodd y ffrindiau amrywiaeth o bropiau i greu siop trin gwallt, gwnaethant sgwrsio mewn cymeriad â'i gilydd wrth steilio gwallt y ddol. Mae rhai o'r plant yn mwynhau rhywfaint o amser gorffwys a thawel wrth iddynt eistedd yn hapus ar y bagiau ffa i ddarllen llyfrau neu chwarae gêm ar ddyfais electronig. Mae'r plant yn mwynhau datblygu eu sgiliau corfforol yn yr awyr iach. Er enghraifft, roedd un plentyn yn mwynhau dangos sut mae'n ymarfer ei sgiliau pêl-rwyd ac roedd yn dathlu wrth daflu'r bêl i mewn i'r rhwyd. Roedd y plant eraill yn mwynhau dringo'r cyfarpar pren a chwarae cuddio yn y wigwam.

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth mewn ffordd addas, ond collir cyfleoedd adeg byrbryd i ddatblygu sgiliau hunangymorth y plant. Er enghraifft, nid yw'r plant yn gallu helpu eu hunain i'r bwyd a'r diodydd a gynigir. Mae'r plant yn mwynhau cyfarwyddo eu chwarae eu hunain. Er enghraifft, roedd un plentyn yn canolbwyntio ac yn cadw diddordeb mewn trefnu rhes o ddominos a dyfeisio ei gêm ei hun gan baru rhifau â'r dotiau. Mae'r plant yn gwneud rhai pethau drostynt eu hunain yn briodol gydag anogaeth gadarnhaol gan y staff.

| Gofal a Datblygiad | Digonol |
|---|---|

Mae'r staff yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Maent yn gwerthfawrogi ymdrechion y plant ac yn dathlu eu cyflawniadau.

Mae'r staff yn datblygu eu dealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Fodd bynnag, nid yw pob aelod o'r staff yn gwbl hyderus o'r gweithdrefnau diogelu. Yn ystod ein hymweliad, ni chyflwynwyd tystysgrifau hyfforddiant cymorth cyntaf y staff i ni. Yn dilyn ein hymweliad, cyflwynodd y person cofrestredig y dystysgrif hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol ar gyfer y person â chyfrifoldeb. Mae'r staff yn cofnodi presenoldeb y plant ond maent yn anghyson wrth gofnodi'r amser y mae'r plant yn gadael y safle. Nid yw'r staff yn cofnodi eu horiau presenoldeb dyddiol eu hunain, er mwyn cadw archwiliad clir o bwy sy'n gofalu am y plant yn ystod y cyfnodau hynny. Nid ydynt wedi casglu'r holl wybodaeth ofynnol am y plant i sicrhau y gallant ddiwallu eu hanghenion unigol. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae’r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn briodol ond nid yw'r rhain wedi cael eu cydnabod gan rieni / gofalwyr er mwyn dangos eu bod wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân rheolaidd er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant a'r staff o beth i'w wneud mewn argyfwng.

Nid yw'r staff yn dilyn y gweithdrefnau rheoli heintiau cyfredol yn effeithiol. Er enghraifft, nid ydynt yn annog y plant i olchi eu dwylo gyda dŵr cynnes a sebon i wneud yn siŵr eu bod yn datblygu eu hylendid personol yn effeithiol. Nid yw'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) wrth weini bwyd i'r plant ac nid ydynt yn darparu llestri a chytleri priodol. Er enghraifft, roedd y staff yn gweini bwyd i'r plant gyda'u dwylo ac roedd rhai o'r plant yn gosod eu bwyd yn uniongyrchol ar y bwrdd neu'r fainc eistedd. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y plant ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Er bod y staff yn cynnig dewisiadau iach fel llaeth neu ddŵr i'w yfed, nid ydynt yn dilyn canllawiau bwyd a maeth Llywodraeth Cymru oherwydd roedd y plant yn cael dewisiadau fel bisgedi nad oeddent yn iach.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant. Maent yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn eu hannog i fod yn gwrtais ac i ddefnyddio moesau da. Er enghraifft, gwnaeth y staff ganmol y plant am liwio i mewn yn dda, am eu sgiliau ysgrifennu ac am fod yn garedig i'w ffrindiau iau. Mae'r staff yn ymateb i geisiadau'r plant mewn modd cyson ac amserol. Er enghraifft, pan ofynnodd y plant am ragor o fwyd neu ddiod neu am adnoddau a chyfarpar gwahanol.

Mae'r staff yn trefnu profiadau chwarae a dysgu addas i'r plant. Maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol pan fydd y plant yn ei gwahodd i chwarae. Er enghraifft, cafodd y staff a'r plant lawer o hwyl gyda'i gilydd yn chwarae gêm o snap. Mae'r staff yn helpu'r plant i ddatblygu eu geirfa yn ystod eu chwarae ac yn eu hannog i ofyn ac ateb cwestiynau yn ystod amser

stori. Mae'r staff yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau pen bwrdd diddorol, gan helpu'r plant i ddatblygu eu creadigrwydd drwy waith crefft a'u cefnogi i ddatblygu eu sgiliau rhifedd drwy ystod o gemau bwrdd a chardiau gwahanol. Mae'r staff yn annog y plant i chwarae allan yn yr awyr iach er mwyn meithrin eu sgiliau corfforol mewn modd priodol. Maent yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad y plant yn yr awyr agored drwy gynnig amrywiaeth dda o adnoddau, sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u diddordeb. Maent yn cefnogi'r plant i ddefnyddio'r cyfarpar dringo a dathlu eu hymdrechion wrth ymarfer eu holwynion tro, llawsafiadau a sgiliau pêl. Mae'r staff yn annog y plant i ddefnyddio adnoddau naturiol fel dail, brigau a blodau gwyllt i ddatblygu eu chwarae a'u hymarfer gan ddefnyddio'u sgiliau synhwyraidd.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ac yn lân. Mae digon o le, y tu mewn a'r tu allan i blant symud o gwmpas yn rhydd a datblygu eu chwarae a'u dysgu mewn modd priodol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad y rhan fwyaf o fesurau ar waith i sicrhau bod pawb ar y cyfan yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Maent yn sicrhau bod y gwiriadau iechyd a diogelwch gofynnol wedi'u cwblhau a bod y staff yn rhoi system ar waith i reoli mynediad i'r safle.

Mae'r staff yn goruchwylio'r plant mewn modd addas y rhan fwyaf o'r amser. Fodd bynnag, yn ystod amser byrbryd, ni wnaethant annog y plant i eistedd a bwyta'u bwyd, roedd rhai o'r plant yn cerdded o gwmpas yr ardal chwarae yn dal i fwyta llond ceg o fwyd heb i'r staff sylwi. Nid oeddent wedi ystyried y risg bosibl o dagu yr oedd hyn yn ei beri. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ysgrifennu asesiadau risg sy'n benodol ac yn adlewyrchu'r lleoliad yn llawn. Maent wrthi'n defnyddio'r asesiadau risg cyffredinol a luniwyd gan yr ysgol gynradd sy'n lletya, ond nid yw'r rhain yn nodi'r risgiau posibl i'r plant yn y lleoliad. Nid oedd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi nodi peryglon baglu, er enghraifft, plant yn gadael eu cotiau a'u bagiau dros y llawr i gyd. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y plant ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod cynllun yr ardal chwarae yn hybu annibyniaeth y plant yn briodol, gan eu galluogi nhw i gael gafael ar deganau ac adnoddau yn hawdd. Mae dewis addas o adnoddau naturiol ac adnoddau wedi'u hailgylchu i ddatblygu sgiliau synhwyraidd, eu sgiliau ieithyddol, eu sgiliau rhifedd a'u hunanymwybyddiaeth. Mae corneli cyfforddus deniadol yn galluogi'r plant i orffwys a chael peth amser tawel i ddarllen llyfrau neu sgwrsio gyda'u ffrindiau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod teganau, adnoddau, a dodrefn priodol sy'n addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, nid oes ardal ddynodedig i'r plant storio eu heitemau personol er mwyn helpu i greu ymdeimlad o berthyn. Mae dewis da o lyfrau ar gael, a chânt eu harddangos yn hyfryd, gan annog y plant i'w darllen.

Mae'r bobl sy'n rhedeg yn lleoliad yn sicrhau y caiff y lle chwarae awyr agored ei ddefnyddio mor aml â phosibl ac maent yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant feithrin eu sgiliau corfforol a chydsymud yn yr awyr iach. Maent yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad y plant yn yr awyr agored drwy gynnig amrywiaeth dda o adnoddau, sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u diddordeb. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi creu gofod yn yr ardal awyr agored i blannu a thyfu blodau, sy'n gwneud yr ardal hon yn ddiddorol i blant ddatblygu eu sgiliau meithrin.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r rhan fwyaf o agweddau ar y gwasanaeth yn addas. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a chyrraedd y safonau.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben ysgrifenedig, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i hysbysu'r rhieni/gofalwyr am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth am staffio yn cynnwys yn llawn yr holl gyflogeion, er enghraifft, y disgyblion 6ed dosbarth a gyflogir i weithio fel cynorthwywyr gwaith chwarae. Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gyson am y newidiadau gofynnol, er enghraifft, newidiadau mewn aelodau o staff. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r rhan fwyaf o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith, ond nid ydynt i gyd wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd i gynnwys y cyfeiriad at ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol yng Nghymru. Er enghraifft, nid oes polisi bwyd a maeth sy'n amlinellu nac yn cyfeirio at ganllawiau bwyd a maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant. Nid yw polisi diogelu'r lleoliad yn seiliedig ar Weithdrefnau Cymru Gyfan i sicrhau bod gan y staff y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddiogelu plant. Wrth drafod gweithdrefnau diogelu gyda'r staff, nid oedd pawb yn hyderus ynglŷn â'r gweithdrefnau, a dywedodd rhai nad oeddent wedi darllen na gweld y polisi diogelu. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y plant ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cyflwyno asesiad ar gyfer datganiad y gwasanaeth i AGC. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cwblhau adroddiad i adolygu ansawdd y gofal. Mae'r adroddiad yn gwerthuso'r lleoliad yn gryno. Nid yw'r adroddiad yn tynnu ar sylwadau gan staff, plant a gweithwyr proffesiynol eraill i werthuso'r lleoliad yn llwyr, a nodi pa welliannau y gellid eu gwneud yn y dyfodol, os o gwbl.

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y tîm o staff a recriwtiwyd yn bodloni'r ganran ofynnol o staff cymwys, medrus a phrofiadol. Er enghraifft, yn ystod ein hymweliad roedd pum aelod o staff, nad oedd tri o'r rhain yn meddu ar gymwysterau. Yn dilyn ein hymweliad, cyflwynodd y person cofrestredig dystysgrif Lefel 3 gwaith chwarae un person â chyfrifoldeb ond ni chyflwynwyd tystysgrif o gymhwyster y person arall â chyfrifoldeb. Cadarnhaodd y person cofrestredig nad yw'r disgyblion 6ed dosbarth a gyflogir yn y lleoliad yn meddu ar gymwysterau. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y plant ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Dywedodd y person cofrestredig wrthym fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol Lefel 1 mewn diogelu gyda'r ysgol gynradd sy'n lletya. Gwnaethom drafod â'r person cofrestredig fod angen i'r staff sy'n gweithio'n

uniongyrchol gyda phlant gwblhau cwrs canolradd Lefel 2 mewn diogelu. Ni allai'r person cofrestredig gyflwyno'i dystysgrifau hyfforddiant na rhoi gwybod i ni pa aelodau o'r staff a oedd wedi cwblhau'r cwrs. Cadarnhaodd y person cofrestredig fod un aelod o'r staff (y person â chyfrifoldeb) wedi cwblhau cwrs hylendid bwyd.

Cyflwynwyd manylion cyflogaeth naw aelod o'r staff i ni. Nid oedd yr un o'r rhain yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i gadarnhau eu haddasrwydd yn eu rôl. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y plant ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Yn dilyn ein hymweliad, mae'r person cofrestredig wedi cadarnhau bod gan yr holl staff dystysgrif gyfredol fanylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Ni allai'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad gyflwyno tystiolaeth fod y staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd sy'n eu hannog i feddwl am ansawdd eu hymarfer a chodi unrhyw bryderon o ran diogelu. Dywedodd y person cofrestredig ei bod hi'n mynd i'r lleoliad bron pob dydd i weld sut mae'r staff ac i ofyn iddynt a oes unrhyw broblemau. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth o sesiynau un i un nac arfarniadau ffurfiol gyda'r staff. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Dywedodd y rhieni / gofalwyr wrthym fod eu plant yn hapus i fynychu a bod y staff yn hawdd mynd atynt.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 25 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y staff yn annog y plant i ymarfer gweithdrefnau golchi dwylo effeithiol a bod y staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) wrth weini bwyd yn unol â Chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Atal a Rheoli Heintiau (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru (Meithrinfeydd, Gwarchod Plant a Chylchoedd Chwarae). | Newydd |
| 25 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yr asesiadau risg yn adlewyrchu'r ddarpariaeth, safle'r lleoliad, y gweithgareddau, a'r cyfleoedd chwarae yn llawn. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff hyn ei adolygu pan fydd unrhyw newidiadau i'r rhain neu i | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | anghenion y plant. | |
| 28 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ofynnol ei choladu yn ffeiliau cyflogaeth y staff er mwyn sicrhau bod yr unigolion yn addas yn eu rôl yn gofalu am y plant a'u cadw'n ddiogel. | Newydd |
| 27 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod nifer digonol o bersonau medrus a phrofiadol gyda chymwysterau addas yn gofalu am y plant perthnasol er mwyn diogelu a hybu eu lles a'u diogelwch. | Newydd |
| 22 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y polisi diogelu yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru. Wrth greu'r polisi hwn, mae'n rhaid i'r person cofrestredig fod yn gyfarwydd â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn hyderus ynghylch Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'u bod yn gallu rhoi'r polisi ar waith yn ymarferol a'u bod yn ymwybodol o faterion diogelu ac amddiffyn plant. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob cyflogai yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd, ffurfiol sy'n ei annog i feddwl am ansawdd ei ymarfer a chodi unrhyw bryderon o ran diogelu. | Newydd |
| 30 | Mae'n rhaid i'r person cofrestredig sicrhau ei fod yn cadw cofnod o oriau presenoldeb dyddiol y plant a'r bobl sy'n gofalu amdanynt. Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ofynnol | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | ei chasglu yng nghofnodion personol y plant er mwyn iddynt gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddiwallu eu hanghenion unigol. | |
| 31 | Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yr hysbysiadau y mae AGC yn eu cael ynghylch digwyddiadau / newidiadau sy'n effeithio ar les y plant yn cael eu gwneud yn hysbys. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Ystyried datblygu annibyniaeth y plant yn ystod amser byrbryd. |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Gwella profiad amser byrbryd a sicrhau bod y dewisiadau bwyd yn iachach. Gwneud yn siŵr bod y polisi bwyd a maeth yn unol â chanllawiau bwyd a maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd yn annog ymdeimlad o berthyn ac yn helpu'r plant i ddatblygu eu hannibyniaeth a'u hymwybyddiaeth o fod yn barchus at eraill, er enghraifft drwy greu ardal ddynodedig iddynt storio'u heitemau personol. |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Sicrhau bod yr adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal yn tynnu ar sylwadau gan y staff, y plant ac asiantaethau proffesiynol ac yn eu cynnwys er mwyn gwerthuso'r lleoliad yn llwyr a nodi a ellid bod wedi gwneud unrhyw welliannau. |
| Safon 1 - Gwybodaeth | Gwneud yn siŵr y caiff pob un o'r polisïau a'r gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd a bod y rhain yn adlewyrchu deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol Cymru. |
| Safon 5 - Cofnodion | Gwneud yn siŵr y caiff yr holl ffurflenni damweiniau a digwyddiadau eu cydnabod gan y rhieni / gofalwyr er mwyn dangos eu bod wedi cael gwybod amdanynt. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/08/2024